# *Cynllun Gwella Ysgol*
# *2025-26*
# *Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur*

| BLAENORIAETHAU | |
|---|---|
| 1 | **Mireinio ein cynlluniau ar gyfer darpariaeth y medrau (Llythrennedd a Rhifedd) ar draws y continwwm dysgu gan uwch-sgilio staff i ddatblygu medrau darllen, ysgrifennu estynedig a Rhif disgyblion o 3-19 oed**<br>• Ffurfioli darpariaeth darllen a rhaglenni ymyrraeth ysgol gyfan er mwyn sicrhau cynnydd mewn sgiliau darllen disgyblion o 3-16.<br>• Gweithredu a gwerthuso strategaethau darllen yr olwyn ddarllen ar hyd y continwwm er mwyn sicrhau eu bod yn gyson, yn berthnasol ac yn effeithiol ar draws y MDaPh.<br>• Parhau i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ysgrifennu er mwyn sicrhau bod cyfran uwch o'r disgyblion yn ysgrifennu'n gywir ac yn gynyddol estynedig<br>• Ffocysu ar gysoni dulliau cymhwyso rhif mewn pynciau addas ar draws y cwricwlwm er mwyn gwella sgiliau rhif disgyblion ar hyd yr y continwwm dysgu. |
| 2 | **Cynllunio a gweithredu strategaethau tracio, monitro ac asesu ysgol gyfan er mwyn cefnogi'r addysgu. Sicrhau gweithredu cyson ar draws pob MDaPh ac ar draws y continwwm dysgu.**<br>• I wella ansawdd a chysondeb dysgu ac addysgu ar draws pob cyfnod oedran trwy ymgorffori a gweithredu Model Dysgu ac Addysgu'r ysgol, gyda ffocws clir ar gynnydd disgyblion.<br>• Cysoni systemau monitro a thracio ar draws y continwwm dysgu er mwyn sicrhau cynnydd pob disgybl.<br>• I ymgorffori polisi marcio ac asesu'r ysgol yn gyson ar draws y continwwm i sicrhau cysondeb, disgwyliadau uchel ac adborth ystyrlon wrth yrru cynnydd pob disgybl.<br>• Cryfhau defnydd effeithiol a chyson o ddata ar draws pob adran i olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl, fel arf cynllunio, a chychwyn bwynt ar gyfer cynnal ymyriadau penodol. |
| 3 | **Datblygu diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol er mwyn gwireddu potensial arwain staff a sicrhau cysondeb mewn arweinyddiaeth ar bob lefel.**<br>• Datblygu cohort o arweinwyr effeithiol sy'n gallu gyrru rhagoriaeth mewn dysgu ac addysgu.<br>• Gwreiddio fframwaith dysgu proffesiynol cadarn er mwyn arfogi staff gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i fodloni heriau addysgol sy'n esblygu a disgwyliadau arweinyddiaeth. |

| | |
|---|---|
| | • Cefnogi a chryfhau'r Arweinyddiaeth wrth baratoi at y Cynnig Llawn yn 2027<br>• Ymbweru disgyblion i ddefnyddio eu llais er mwyn effeithio ar waith yr ysgol.<br>• Gwella dilyniant ieithyddol o'r meithrin i Ganolfan Gwenallt drwy gynyddu nifer y disgyblion sy'n parhau â'u datblygiad yn y Gymraeg, wedi'i ysgogi gan arweinyddiaeth effeithiol, cydweithredu ac atebolrwydd. |
| **4** | **Sicrhau bod systemau cefnogaeth a lles yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws bob maes er mwyn cynyddu ymgysylltiad pob disgybl gyda'i addysg.**<br>• Gwella presenoldeb ysgol gyfan trwy ffocysu ar gau'r bwlch mewn grwpiau penodol.<br>• Cynllunio darpariaeth cyd-lynus ar gyfer Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ysgol gyfan<br>• Gweithredu a monitro systemau tracio, cyfeirio a monitro LLACh<br>• Gwella gallu athrawon i gefnogi dysgwyr ag anawsterau niwroamrywiol<br>• Creu a gweithredu cynllun sy'n cefnogi'n benodol disgyblion o deuluoedd incwm isel, gyda'r nod o gau'r bwlch cyflawni rhwng disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion<br>• Dwysau'r ddarpariaeth o ddysgu awyr agored er mwyn sicrhau ymgysylltiad llawn gyda'r dysgu. |

| |
|---|
| **Blaenoriaeth 1: Mireinio ein cynlluniau ar gyfer darpariaeth y medrau (Llythrennedd a Rhifedd) ar draws y continwwm dysgu gan uwch-sgilio staff i ddatblygu medrau darllen, ysgrifennu estynedig a Rhif disgyblion o 3-19 oed** |
| **Meini Prawf Llwyddiant:** |
| Prosesau Craffu ar Waith/Monitro Gwersi yn arddangos cynnydd yn uwch sgiliau darllen ein disgyblion |
| Prosesau Craffu ar Waith/Monitro Gwersi yn gwerthuso'n gadarnhaol ddarpariaeth estynedig i ddatblygu uwch sgiliau darllen ein disgyblion |
| Staff yn defnyddio strategaethau i dargedu uwch sgiliau darllen yn fedrus mewn gwersi ar draws y cwricwlwm |
| Data Profion Llythrennedd a Rhifedd yn dangos cynnydd. |
| Cynnydd yn graddau A/A* yn TGAU Cymraeg Iaith a Saesneg Iaith ac wedi cyrraedd targed |
| Darpariaeth ysgrifennu estynedig wedi eu mapio yn gyd-lynus gan ddarparu cyfleoedd addas i ddisgyblion wneud cynnydd pwrpasol yn eu sgiliau ysgrifennu |
| Mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu gyda lefel gadarn o gywirdeb gyda llawer yn ysgrifennu geirfa Haen 2 a Haen 3 yn gywir yn gyson |
| Staff yn hyderus wrth hyrwyddo sgiliau ysgrifennu estynedig pwnc benodol ar draws y cwricwlwm |
| Darpariaeth rhifedd wedi mapio yn gyd-lynus gan ddarparu cyfleoedd addas i ddisgyblion wneud cynnydd pwrpasol ac uchelgeisiol yn eu sgiliau rhifedd yn y pynciau galw uchel |
| Staff pynciau galw uchel yn hyrwyddo sgiliau rhif yn hyderus ac yn gywir yn sgil awdit o gyfleoedd a hyfforddiant |
| Portffolio o dasgau pwrpasol ac uchelgeisiol wedi ei goladu (ar draws y cwricwlwm – pynciau galw uchel) er mwyn rhannu arfer dda |

| **Blaenoriaeth 2: Cynllunio a gweithredu strategaethau tracio, monitro ac asesu ysgol gyfan er mwyn cefnogi'r addysgu. Sicrhau gweithredu cyson ar draws pob MDaPh ac ar draws y continwwm dysgu.** |
|---|
| **Meini Prawf Llwyddiant;** |
| Arsylwadau gwersi a theithiau dysgu yn dangos tystiolaeth o agweddau o'r Model Dysgu ac Addysgu a'r defnydd cynyddol o strategaethau. |
| Rhaglen ymchwil yn parhau gydag arsylwadau cyfoedion yn cefnogi'r broses ac yn miniogi'r ffocws ar agweddau o'r Model Dysgu ac Addysgu. |
| Systemau yn eu lle i wella'r cysondeb o ran defnydd system Cipio Cynnydd. |
| Adrannau Iechyd a Lles a DT yn dilyn arfer dda y Celfyddydau Mynegiannol ac yn gwreiddio portffolio digidol fel un agwedd o asesu cynnydd o fewn tasgau ymarferol. |
| System Meincnodi y CS yn weithredol a bod systemau yn eu lle er mwyn rhannu gwybodaeth gyda darparwyr meithrin. |
| Gwerthusiad llawn o'r data wedi ei gwblhau a gwell defnydd yn cael eu gwneud o'r data i fwydo'r darlun ar gynnydd dysgwyr y CS. |
| Asesiadau Ton 1 TGAU wedi eu mapio a chalendr asesu wedi ei greu/ei addasu ac ar waith. |
| Cysondeb yn y defnydd o grwpiau targed a rhaglenni ymyrraeth ar draws pob pwnc. |
| Pob aelod o staff dysgu wedi derbyn hyfforddiant ar y Polisi Marcio ac Adborth. Bydd tystiolaeth o fonitro gwaith yn dangos cysondeb a disgwyliadau uchel o ran adborth a rhoddwyd ar draws MDaPh. |
| Ymateb dysgwyr i adborth wedi gwella i fod yn fwy penodol, estynedig ac ystyrlon er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd. |
| Arweinwyr Adran wedi eu huwchsgilio i ddefnyddio data yn effeithiol i werthuso cyrhaeddiad dysgwyr a chynllunio sut i gefnogi a gwella hyn. |

| **Blaenoriaeth 3: Datblygu diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol er mwyn gwireddu potensial arwain staff a sicrhau cysondeb mewn arweinyddiaeth ar bob lefel.** |
|---|
| **Meini Prawf Llwyddiant:** |
| Cynnydd mewn hyder ac ymwybyddiaeth o sgiliau arweinyddiaeth ymysg AC newydd. |
| Tystiolaeth o gynnydd i rolau uwch o fewn yr ysgol neu bartneriaeth dros amser. |
| Effaith weladwy ar ymarfer a datblygiad proffesiynol personol ymysg Arweinwyr Canol ac Uwch. |
| Polisi Adolygiad Datblygiad Proffesiynol wedi ffurfioli ac yn weithredol. |
| Defnydd cyson a hyderus o'r safonau dysgu proffesiynol ymysg staff er mwyn gwella eu gallu arweinyddol |
| Tystiolaeth Cylch Ymchwil 2025-26. |
| Staff YGYBD yn arwain yn deall ac yn defnyddio strategaethau cymell a hwyluso yn gynyddol effeithiol. |
| Adnoddau cymell a hwyluso yn cael eu defnyddio yn gyson ac yn effeithio yn gadarnhaol ar y broses. |
| Adborth cadarnhaol gan staff ar berthnasedd ac effaith dysgu proffesiynol |
| Hyder arweinyddion yn eu gallu i gyflwyno'r cwricwlwm TGAu newydd 2025 ymlaen |
| Strategaeth asesiadau 2025-26 mewn lle ac yn wedi gwerthuso. |
| Llais disgyblion yn treiddio trwy bob rhan o fywyd yr ysgol. |
| Rhaglenni trosglwyddo CA4/5 mewn lle. Niferoedd CA5 wedi cynyddu o 67% i 75% YGY a 16% i 30% BD. |
| Canlyniadau holiadur SLO yn dangos cynnydd yng ngallu staff i hunan-fyfyrio. |

| |
|---|
| **Blaenoriaeth 4: Sicrhau bod systemau cefnogaeth a lles yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws bob maes er mwyn cynyddu ymgysylltiad pob disgybl gyda'i addysg.** |
| **Meini Prawf Llwyddiant:** |
| Data presenoldeb yn dangos cynnydd amlwg ac yn tystiolaethu gwell ymgysylltiad ymysg disgyblion targed. |
| System clir ar gyfer tracio a monitro presenoldeb disgyblion wedi gwerthuso, mireinio a gwreiddio trwy ddefnydd o classcharts. |
| Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi ei fapio yn llawn o 3 i 16. |
| Strategaethau Parthau Hunan-reoleiddio wedi gwerthuso , mirenio a gwreiddio drwy emosiwn yr wythnos a gwersi DGDB |
| System LLACH mewn lle wedi mireinio a'i wreiddio gyda defnydd cyson ag effeithiol gan y tim lles |
| Strategaethau cefnogi Niwroamrywiaeth yn cael eu defnyddio'n gynyddol hyderus ac yn cefnogi disgyblion mewn dull cynhwysol |
| Cynllunio, gwerthuso ac ansawdd CDU disgyblion yn gyson ,ac yn cael eu defnyddio yn gynyddol hyderus gan staff |
| Defnydd effeithiol o ddata gan Arweinwyr er mwyn adnabod disgyblion teuluoedd incwm isel. Data |
| Darpariaeth Awyr Agored wedi datblygu yn llawn gyda defnydd cynyddol o'r adnodd ar draws yr ystod gallu. |